

Galwad i bob sefydliad treftadaeth: mynd i'r afael â'ch anghenion digidol drwy gymryd rhan yn arolwg DASH

21/09/2021



The DASH survey is open to all types of heritage organisation

Mae cymryd rhan yn yr arolwg Agweddau a Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth (DASH) yn helpu sefydliadau treftadaeth i ddeall a mynd i'r afael â'u hanghenion digidol – ac yn ein helpu i'w deall hefyd.

Beth yw arolwg DASH?



Gall datblygu sgiliau digidol helpu sefydliadau treftadaeth i wrthsefyll pandemig COVID-19 a symud tuag at ddyfodol mwy gwydn a chreadigol. Ond gall deall y ffordd orau o ddefnyddio digidol deimlo fel gobaith mawr a brawychus.

Mae'r [arolwg Agweddau a Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth \(DASH\)](#) rhannu'r maes digidol yn gyfres o gwestiynau syml sy'n cwmpasu ystod o feysydd allweddol. Drwy ofyn i'ch staff, ymddiriedolwyr, aelodau'r bwrdd a gwirfoddolwyr gymryd pum munud i [gwblhau'r arolwg](#), gallwch roi darlun clir o'r sgiliau digidol ar draws eich sefydliad treftadaeth. Byddwch hefyd yn darganfod pa agweddau a chymhellion sydd gan eich pobl tuag at ddefnyddio digidol.

Ar ôl i'r arolwg gau, bydd yr arbenigwyr ymchwil Timmus Limited yn anfon eich data atoch ac yn rhoi crynodeb dangosfwrdd ar-lein i chi. Mae'r gwasanaeth lefel proffesiynol hwn ar gael yn rhad ac am ddim.

Sut mae'r data o DASH yn helpu sefydliadau treftadaeth

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos i sefydliadau treftadaeth y ffordd orau o dreulio amser, egni ac adnoddau wrth roi digidol ar waith.

Gall gymryd rhan yn yr arolwg helpu sefydliadau i:

- nodi cryfderau a bylchau digidol
- darparu fframwaith clir i staff a gwirfoddolwyr drafod a deall
- cymharu eu strategaeth ddigidol â'r hyn sy'n digwydd mewn gwirionedd o fewn y sefydliad
- darganfod sut mae eu pobl yn teimlo am y cymorth y maent yn ei dderbyn
- adnabod sgiliau digidol heb eu defnyddio
- canolbwyntio ymdrechion hyfforddi
- darparu meincnod clir

Mae gofyn i staff a gwirfoddolwyr gymryd rhan yn yr arolwg hefyd anfon neges glir bod digidol yn cael ei werthfawrogi yn eich sefydliad.

Mae DASH yn agored i bob math o sefydliadau treftadaeth, o bob maint, sy'n gweithredu unrhyw le yn y DU.

Ar gyfer pwy mae'r arolwg?



Llun: Amgueddfa Manceinion.

Mae DASH yn agored i bob math o sefydliadau treftadaeth, o bob maint, sy'n gweithredu unrhyw le yn y DU – o sefydliadau gwirfoddol lleol i sefydliadau mawr. Mae'r canlyniadau'n cefnogi sefydliadau treftadaeth ar bob cam o'u taith ddigidol, o ddechreuwr i ddatblygu. Gall sefydliadau mwy ofyn i wahanol adrannau eu cwblhau i ddarparu darlun cyflawn ar draws y sefydliad

Cofrestrwch ar gyfer yr arolwg

Ariennir yr arolwg gan Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol a'i ddarparu gan Timmus Limited mewn partneriaeth â The Heritage Alliance.

Bydd ar agor ar gyfer ymatebion tan **21 Tachwedd 2021**.

[Cofrestrwch ar gyfer arolwg DASH heddiw](#)

Helpwch ni i lywio cwrs ar gyfer treftadaeth

Cymerodd cyfanswm o 4,120 o staff a gwirfoddolwyr mewn 281 o sefydliadau treftadaeth ran yn arolwg DASH 2020. [Gweler adroddiad y llynedd ar gyfer y canfyddiadau.](#)

Roedd y canlyniadau, a gymerwyd yn gyffredinol, yn hanfodol i'n helpu i ddeall anghenion digidol y sector treftadaeth ac ymateb yn effeithiol i'r rhain drwy ein menter [Sgiliau Digidol ar gyfer Treftadaeth](#).

Mae'r 12 mis diwethaf wedi dod â llawer o newidiadau. Bydd deall anghenion digidol sefydliadau treftadaeth heddiw yn ein helpu i nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r sector yn ystod y tair blynedd nesaf.

Bydd deall anghenion digidol y sefydliad treftadaeth heddiw yn ein helpu i nodi ein blaenoriaethau ar gyfer cefnogi'r sector yn ystod y tair blynedd nesaf.

Nid yn unig y mae'n cefnogi ein cynllunio a'n strategaeth, mae hefyd yn llywio ein sgysiau gyda'r llywodraeth.

Pam y dylai'r rhai sy'n cymryd arolwg 2020 gymryd rhan yn DASH eto

Mae gan sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg yn 2020 gyfle gwerthfawr i gymharu eu canlyniadau â'r llynedd, mesur cynnydd ac ail-ganolbwyntio ymdrechion. Drwy gymryd rhan yn DASH eto, mae'r rhai sy'n cymryd yr arolwg y llynedd hefyd yn dangos i ni sut mae anghenion wedi newid.

Gwrandawriad gan gynifer o sefydliadau â phosibl

Mae DASH yn rhoi cyfle i ni arolygu'r sector treftadaeth yn ei gyfanrwydd. Mae eich llais yn bwysig yn hyn – rydym am glywed gan ystod mor eang â phosibl o bobl a sefydliadau treftadaeth.

Dywedodd Josie Fraser, Pennaeth Polisi Digidol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: "Bydd canlyniadau eleni yn hanfodol i bob sefydliad sy'n cefnogi ac yn gweithio gyda'r sector – ac i'r sector barhau i adeiladu ar sut mae'n gwneud defnydd gwych o ddigidol."



rdeb hefyd mewn ...



mewn treftadaeth cyntaf ledled y DU

[Minder Kaur Athwal, ymddiriedolwr yn y Digital Skills for Heritage Trust Network. Credyd: Sarah Hayes.](#)



Digidol – canllaw arfer da